# Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

**2014 dccc 6**

*Cyffredinol*

**17 Gorchmynion a rheoliadau**

(1) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol ac yn cynnwys pŵer i—

(a) gwneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, ategol, drosiannol, ddarfodol neu ddarpariaeth arbed y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion y Ddeddf hon, neu mewn cysylltiad â hi, a

(b) gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

(2) Nid yw offeryn statudol sy'n cynnwys (ar ei ben ei hun neu ar y cyd â darpariaethau eraill)—

(a) gorchymyn o dan adran 2,

(b) rheoliadau o dan adran 7,

(c) gorchymyn o dan adran 14, neu

(d) gorchymyn o dan adran 16 sy'n cynnwys darpariaeth sy'n ychwanegu at destun Deddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn diwygio'r testun neu yn ei hepgor,

i gael ei wneud nes bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

(3) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon i fod yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 17 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 19**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, Adran 17.